

# Cynorthwy-ydd Addysgu

School:	Ysgol Plasmawr	Posted:	24th January
Location:	Tyllgoed, Cardiff		2020
Contract Term:	Temporary	Expires:	13th February
Salary:	Graddfa 3 SCP 3-6 (£18,065- £19,171 pro-rata)	Start Date:	2020 01:05 PM 2nd March 2020
Hours:	Term Time	Job ID:	1086410
		Job Reference:	Plas/CAddysg2



Ysgol Plasmawr

Mae Ysgol Plasmawr yn awyddus i benodi Cynorthwy-ydd Addysgu brwdfrydig ac egniol i ymuno â'r Tîm Cynnal Dysgu. Rydym yn ysgol gyfun 11-18 oed sydd â gweledigaeth glir am gynhwysiant er mwyn galluogi pob disgybl i lwyddo. Cefnogir ystod eang o anghenion dysgu yn y brif ffrwd, yn ogystal ag anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol ac awtistiaeth. Mae'r ysgol yn gwbl ymroddedig i gefnogi pobl ifanc i aros yn yr ysgol ac i gyflawni eu potensial mewn addysg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm profiadol o staff ymroddgar a brwdfrydig dan arweiniad y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus rinweddau hanfodol i'r swydd, gan gynnwys dyncwch, amynedd, blaengaredd, creadigrwydd meddwl, hiwmor a'r gallu i weithio'n dda fel aelod o dîm. Disgwylir i ddeiliad y swydd hon i gefnogi disgyblion o fewn dosbarthiadau'r brif ffrwd a hefyd i weithio'n achlysurol yn yr Ardal Cynnal Dysgu gyda disgyblion sydd ag anawsterau amrywiol, gan gynnwys rhai mwy heriol eu hymddygiad sydd angen mewnbwn 1:1 neu mewn grŵp bach.

Mae hon yn swydd a fydd yn cynnig boddhad proffesiynol uchel ac yn rhoi profiad defnyddiol i unigolyn sydd eisiau datblygu gyrfa o fewn y gweithlu addysg. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus lefel uchel o gefnogaeth cydweithwyr o fewn y Tîm Cynnal Dysgu, a phob cyfle i ddilyn trywydd diddordeb penodol o fewn y swydd.

## Safeguarding Statement:

Ysgol Plasmawr is committed to safeguarding and promoting the welfare of children, young people and vulnerable adults and expects all staff and volunteers to share this commitment. We particularly welcome applications from under represented groups including ethnicity, gender, transgender, age, disability, sexual orientation or religion.